Ymateb Llais Defnyddwyr Cymru i ymgynghoriad Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ar Gynllun Sgorio Archwiliadau Awdurdodau Lleol

Ionawr 2012

Amdanom ni

Llais Defnyddwyr Cymru yw'r sefydliad statudol annibynnol sy'n ymgyrchu dros fargen deg i ddefnyddwyr. Ni yw llais defnyddwyr, ac rydym yn gweithio i sicrhau bargen deg ar eu rhan. Wrth ymgyrchu ar ran defnyddwyr, ein nod yw ysgogi newid a llunio polisïau, er mwyn adlewyrchu anghenion defnyddwyr yn well. Mae'r dystiolaeth a gesglir gennym drwy ymchwil a'n gwybodaeth unigryw am faterion defnyddwyr yn sicrhau ein bod yn gwneud hyn mewn modd hyddysg. Mae dyletswydd arnom i weithredu fel llais defnyddwyr sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai sydd ar incwm isel, pobl ag anableddau, pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a phobl hŷn. Yn ogystal, rydym hefyd yn ceisio nodi lle y gall defnyddwyr eraill fod o dan anfantais anghymesur oherwydd mater neu bolisi arbennig sy'n ymwneud â defnyddwyr.

Trosolwg

Mae Llais Defnyddwyr Cymru yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar yr ymgynghoriad hwn. Rydym yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn o safbwynt y defnyddiwr, felly o gofio natur dechnegol y cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn, yn hytrach nag ateb y cwestiynau'n benodol; rydym yn hytrach wedi rhoi crynodeb o'n pwyntiau allweddol. Mae'r ymateb ysgrifenedig hwn yn dilyn cyfarfod gydag Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru lle rydym hefyd wedi rhannu ein sylwadau ar lafar.

Yn gryno, mae Llais Defnyddwyr Cymru yn croesawu'r cynnig i gyflwyno rhaglen dreigl o archwiliadau a system o sgorio'r archwiliadau hyn ar gyfer awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. Fodd bynnag, er mwyn i'r cynllun hwn weithio i ddefnyddwyr, mae rhai materion allweddol y mae angen eu hystyried, sef, yn hytrach na'r system sgorio pedair haen A-D arfaethedig, byddem yn argymell dull 0-5 er mwyn bod yn gyson â Chynllun Sgorio Hylendid Bwyd presennol yr Asiantaeth. Byddai rhoi tair sgôr ar wahân ar gyfer diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn gliriach i'r defnyddwyr ynghyd â chrynodeb byr o ganfyddiadau unrhyw archwiliad i ategu'r sgoriau hyn. Byddem hefyd yn argymell yn gryf y dylai Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru gynnal ymgynghoriad a phrofion gyda defnyddwyr yn uniongyrchol cyn dechrau treialu'r cynllun newydd. Nodir manylion ein hymateb llawn isod.

Ein hymateb

Croesawn y cynnig gan Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i gyflwyno rhaglen dreigl o archwiliadau o waith gorfodi bwyd a bwyd anifeiliaid. Credwn y bydd y gwaith monitro safonedig parhaus hwn yn darparu ffocws o ran effeithiolrwydd awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau yn y meysydd hyn. Bydd yn gyfle i nodi ym mha feysydd y mae awdurdodau lleol yn llwyddo o ran gorfodi a meysydd ar gyfer gwella, yn ogystal â darparu

mesur rhwng ac ar draws awdurdodau lleol gwahanol yng Nghymru. Gall hyn o bosibl sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu mesur eu heffeithiolrwydd o ran cyflawni eu cyfrifoldebau yn ymwneud â gorfodi bwyd a bwyd anifeiliaid ac yn bwysig, eu bod yn cael cydnabyddiaeth o ran y meysydd y maent yn llwyddo ynddynt ac yn gwella safonau lle na fyddant yn cyflawni yn ôl y disgwyl.

Rydym hefyd yn cefnogi'r egwyddor o gyflwyno system sgorio i awdurdodau lleol ddisgrifio, mewn ffordd hawdd ei deall, ganlyniadau unrhyw archwiliadau o berfformiad awdurdodau lleol o ran gorfodi bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae hyn yn gyson ag egwyddorion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef tryloywder a byddai defnyddwyr yn ei chroesawu.

Fformat y cynllun sgorio

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig sgorio ar sail pedair haen, o A i D, gydag A yn golygu perfformiad cyffredinol da iawn a D yn golygu methiannau sylweddol.

Yn dilyn lansio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'n gwaith i godi mwy o ymwybyddiaeth o hylendid bwyd o ganlyniad i'n gwaith monitro cynnydd asiantaethau allweddol i weithredu argymhellion yr Athro Pennington[1], nodwn fod gan ddefnyddwyr yng Nghymru fwy o ymwybyddiaeth a diddordeb mewn diogelwch bwyd a hylendid bwyd yn fwy cyffredinol.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd wedi bod yn gam mawr ymlaen o ran cyfleu gwybodaeth gymhleth i ddefnyddwyr mewn ffordd syml, haws ei deall drwy system sgorio o 0 i 5. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd a ninnau wedi gwneud llawer i geisio codi mwy o ymwybyddiaeth o'r cynllun. Yn ein harolwg diweddar o ddefnyddwyr, canfuwyd bod 50 y cant o bobl yng Nghymru wedi gweld y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd neu'r Cynllun Sgoriau ar y Drysau sy'n rhoi sêr i fusnesau bwyd yn ôl lefelau hylendid neu wedi clywed am y cynlluniau hynny, sy'n pwysleisio effaith y gwaith hyrwyddo hwn. Bydd cynigion Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn orfodol i fusnesau bwyd arddangos sgoriau hylendid bwyd yn codi ymwybyddiaeth ymhellach byth, sy'n ardderchog. Fodd bynnag, bydd hyn yn golygu pan fydd defnyddwyr yn meddwl am faterion yn ymwneud â hylendid bwyd, byddant yn cysylltu hyn â'r system sgorio 0-5 seren.

Er mwyn osgoi drysu'r defnyddwyr, byddem felly yn argymell y dylai Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ystyried cynllun sgorio 0-5 seren yn hytrach na'r cynllun sgorio A-D awgrymedig. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb ac yn fodd i gyfathrebu'n haws â defnyddwyr a'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddeall, gan eu bod eisoes yn ymwybodol o system sgorio 0-5 ac yn dod i arfer â system o'r fath ar gyfer materion sy'n ymwneud â gorfodi bwyd.

Y sgoriau

Er nad oes gennym sylwadau penodol i'w gwneud ar fanylion y dull o bennu sgôr o ran cyfansoddiad technegol, gan fod hyn yn fater y byddai'n fwy priodol i awdurdodau lleol ac eraill roi sylwadau arno, mae gennym sylwadau ar sut y dylid cyflwyno'r rhain. Y cynnig presennol yw y caiff un sgôr ei phennu sy'n dwyn ynghyd ganlyniadau archwiliad ar draws tri

[1] yn dilyn ymchwiliad 2005 i'r achosion o E.coli O157 yn 2005

maes allweddol o ddarparu gwasanaethau sef: hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.

Fel y nodir uchod, gwyddom fod defnyddwyr yng Nghymru wedi datblygu fwy o ymwybyddiaeth a diddordeb mewn hylendid bwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a byddai ganddynt ddiddordeb arbennig mewn deall sut y mae awdurdodau lleol yn perfformio yn y maes hwn. Caiff hyn ei ategu gan waith ymchwil a wnaed gennym gyda defnyddwyr i ddeall yn well eu canfyddiadau o wasanaethau rheoleiddio lleol yng Nghymru, lle'r oedd gan ddefnyddwyr farn gref am faterion yn ymwneud â hylendid bwyd.[2] Yn amlwg hefyd bydd grwpiau buddiant penodol a fydd â buddiannau penodol mewn gwybod mwy am berfformiad awdurdodau lleol ym maes safonau bwyd a bwyd anifeiliaid hefyd. Er enghraifft, yn ein gwaith ymchwil ar wasanaethau rheoleiddio, wrth drafod materion cysylltiedig yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid gyda grwpiau defnyddwyr gwahanol ledled Cymru, canfuwyd mai dim ond un grŵp, sef cyfranogwyr a oedd yn byw mewn ardal wledig, oedd â diddordeb gwirioneddol yn y mater hwn, ond wrth gwrs, lle'r oeddent â diddordeb, roeddent hefyd â chysylltiad agos iawn.

At hyn wrth gwrs, gellid dadlau y gallai awdurdod lleol fod yn arbennig o dda am orfodi hylendid bwyd a bod ganddo gofnod cadarn o hyn. Fodd bynnag, o ran darparu gwasanaethau bwyd anifeiliaid gellid canfod bod meysydd y mae angen eu gwella ar frys, felly byddai'n rhaid i'r sgôr derfynol ystyried y ddwy agwedd, a allai beri dryswch pe bai defnyddiwr neu randdeiliad am wybod i ba raddau y mae awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau ar hylendid bwyd neu fwyd anifeiliaid yn benodol.

Am y rhesymau a nodir uchod, gallem awgrymu'n gryf y dylai Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ystyried rhoi tair sgôr am bob archwiliad, un ar gyfer hylendid bwyd, un ar gyfer safonau bwyd ac un arall ar gyfer bwyd anifeiliaid. Byddai hyn yn golygu rhoi darlun clir ar berfformiad awdurdodau lleol ym mhob maes gwasanaeth, a fyddai o fudd i ddefnyddwyr a'r awdurdodau lleol eu hunain.

Cyfleu ac esbonio sgôr yn effeithiol

Unwaith eto, gan dynnu ar brofiad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (yr ydym hefyd yn aelod o'i Grŵp Llywio yn y DU), byddem yn pwysleisio pa mor anodd yw rhoi sgôr yn unig, heb esbonio'r rhesymau sy'n sail i hyn. Er bod y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn hygyrch o ran y ffordd y caiff y sgôr ei harddangos, gwyddom y byddai defnyddwyr am gael rhagor o wybodaeth am y rhesymau sy'n sail i sgôr wael. Gwerthfawrogwn fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd eisoes yn cyhoeddi ei hadroddiadau archwilio ar awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill ar-lein a chroesawn hyn. Fodd bynnag, byddem yn awgrymu y dylai'r Asiantaeth, yn gyntaf, ystyried adolygu'r adroddiadau archwilio hyn i weld pa mor hygyrch ydynt i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb ynddynt. Byddem yn fwy na pharod i helpu gyda'r gwaith hwn.

At hyn, byddem yn awgrymu y dylai Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ystyried darparu crynodeb byr o agweddau allweddol pob archwiliad penodol er mwyn arddangos hyn gyda'r sgôr ar gyfer yr awdurdod lleol. Dylai hyn gynnwys rhesymau penodol dros roi'r sgôr i'r

[2] Gwnaethom waith ymchwil grŵp ffocws ar ran y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol ar Ddefnyddwyr yng Nghymru a gwasanaethau rheoleiddio, heb ei gyhoeddi, Mawrth 2011

awdurdod hwnnw a pha gamau gweithredu sydd eu hangen i wella. Dylai hwn, i ryw raddau, fod yn grynodeb gweithredol hygyrch o'r adroddiad archwilio. Yna, pe bai angen rhagor o wybodaeth ar bobl gallent edrych ar yr adroddiad archwilio llawn.

Arddangos y sgoriau a chael gafael arnynt

Nid yw'r ymgynghoriad yn rhoi unrhyw fanylion ar sut y mae Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru yn cynnig arddangos sgoriau archwilio, felly byddem yn argymell y dylid ystyried y mater hwn ymhellach. Mae'n bosibl y gellid atodi'r cynllun hwn i safle'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd presennol mewn rhyw fodd, neu gallai yn bendant fabwysiadu'r un naws. At hyn, dylid hefyd ystyried sut y gallai defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd weld y wybodaeth hon.

Cynnwys defnyddwyr ac ymgynghori â hwy

Yn olaf, byddem yn argymell yn gryf y byddai Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru yn elwa o ddeall y broses o ymgynghori â defnyddwyr a'u profi'n uniongyrchol am briodweddau'r cynllun sgorio cyn dechrau treialu'r gwaith hwn. Er ein bod yn gwerthfawrogi y caiff unrhyw gynllun peilot ei werthuso, byddai'n well cynnwys a phrofi'r model dewisol neu opsiynau ar gyfer modelau gyda defnyddwyr ymlaen llaw er mwyn i'r cynllun - a gaiff ei ddatblygu gyda defnyddwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill mewn golwg - ddiwallu eu hanghenion ac er mwyn iddynt ddefnyddio'r cynllun hwnnw. Dyma'r opsiwn gorau ac mae'n ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau na bod angen newid rhywbeth pwysig yn ddiweddarach am ei fod yn peri problem i'r defnyddwyr wrth dreialu'r cynllun. Byddem yn fodlon cynorthwyo Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i gyflawni'r gwaith hwn.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Liz Withers
Pennaeth Polisi

Llais Defnyddwyr Cymru
Llawr Gwaelod
Tŷ Portcullis
21 Cowbridge Road East
Caerdydd CF11 9AD

Ffôn: 02920 787130
E-bost: liz.withers@consumerfocus.org.uk